**CYNGOR RHONDDA CYNON TAF**

Cofnodion cyfarfod rhithwir y Cyngor a gynhaliwyd ddydd Mercher, 7 Hydref 2020 am 5.00 pm

**Cynghorwyr y Fwrdeistref Sirol – Aelodau o'r Cyngor a oedd yn bresennol:-**

Y Cynghorydd S Powderhill (Cadeirydd)

| | |
|---|---|
| Y Cynghorydd M. Adams | Y Cynghorydd R. Bevan |
| Y Cynghorydd H. Boggis | Y Cynghorydd J. Bonetto |
| Y Cynghorydd S. Bradwick | Y Cynghorydd J. Brencher |
| Y Cynghorydd A. Calvert | Y Cynghorydd G. Caple |
| Y Cynghorydd A Chapman | Y Cynghorydd A. Cox |
| Y Cynghorydd A. Crimmings | Y Cynghorydd J. Cullwick |
| Y Cynghorydd A Davies-Jones | Y Cynghorydd G. Davies |
| Y Cynghorydd L. De Vet | Y Cynghorydd M. Diamond |
| Y Cynghorydd J. Edwards | Y Cynghorydd J. Elliott |
| Y Cynghorydd S. Evans | Y Cynghorydd S. Evans |
| Y Cynghorydd M. Forey | Y Cynghorydd A. Fox |
| Y Cynghorydd H. Fychan | Y Cynghorydd E. George |
| Y Cynghorydd D. Grehan | Y Cynghorydd E. Griffiths |
| Y Cynghorydd M. Griffiths | Y Cynghorydd G. Holmes |
| Y Cynghorydd L. Hooper | Y Cynghorydd G. Hopkins |
| Y Cynghorydd P. Howe | Y Cynghorydd G. Hughes |
| Y Cynghorydd J. James | Y Cynghorydd P. Jarman |
| Y Cynghorydd G. Jones | Y Cynghorydd L. Jones |
| Y Cynghorydd W. Jones | Y Cynghorydd R. Lewis |
| Y Cynghorydd W. Lewis | Y Cynghorydd C. Leyshon |
| Y Cynghorydd A. Morgan | Y Cynghorydd K Morgan |
| Y Cynghorydd S. Morgans | Y Cynghorydd M. Norris |
| Y Cynghorydd D. Owen-Jones | Y Cynghorydd M. Powell |
| Y Cynghorydd S Powell | Y Cynghorydd S. Rees-Owen |
| Y Cynghorydd S. Rees | Y Cynghorydd A. Roberts |
| Y Cynghorydd J Rosser | Y Cynghorydd G. Stacey |
| Y Cynghorydd E Stephens | Y Cynghorydd G. Thomas |
| Y Cynghorydd W Treeby | Y Cynghorydd R. Turner |
| Y Cynghorydd L Walker | Y Cynghorydd M. Weaver |
| Y Cynghorydd M. Webber | Y Cynghorydd E. Webster |
| Y Cynghorydd D. Williams | Y Cynghorydd J. Williams |
| Y Cynghorydd T. Williams | Y Cynghorydd R. Yeo |

**Swyddogion oedd yn bresennol**

Mr C Bradshaw, Prif Weithredwr
Mr B. Davies, Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cyllid a Digidol
Ms G Davies, Cyfarwyddwr Addysg a Gwasanaethau Cynhwysiant
Mr R Evans, Cyfarwyddwr Materion Adnoddau Dynol
Mr C. Hanagan, Cyfarwyddwr Gwasanaeth – Gwasanaethau Democrataidd a Chyfathrebu
Mr P Mee, Cyfarwyddwr Iechyd a Diogelwch y Cyhoedd, a Gwasanaethau Cymuned
Mr N. Wheeler, Cyfarwyddwr Cyfadran – Ffyniant, Datblygu, a Gwasanaethau Rheng-flaen
Mr A. Wilkins, Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cyfreithiol

**13 Ymddiheuriadau**

Daeth ymddiheuriad am absenoldeb gan Gynghorwyr y Fwrdeistref Sirol S Belzak, J Davies, M Fidler Jones, J Harries, KL Jones, W Owen, S Pickering, M Tegg, G D Williams a C Willis.

**14 Munud o ddistawrwydd**

- Ar ran yr Arweinydd, manteisiodd y Dirprwy Arweinydd, y Cynghorydd Bwrdeistref Sirol M Webber ar y cyfle i gyhoeddi marwolaeth drist cyn-Gynghorwyr y Fwrdeistref Sirol John David ac Alby Davies MBE. Cyhoeddodd y Dirprwy Arweinydd hefyd farwolaeth cyn-Gynghorydd Taf-elái a'r Cynghorydd Cymuned, Alan Watts. Arweiniodd y Dirprwy Arweinydd deyrnged bersonol i'r ddau gyn-Gynghorydd. Roedd y ddau yn Aelodau ymroddedig o'r Cyngor am amser hir ac anfonwyd cydymdeimladau at eu teuluoedd.

- Darllenodd Llywydd y Cyngor grynodeb sy'n amlinellu gyrfaoedd hir y ddau gyn-Gynghorydd y Fwrdeistref Sirol, J David ac A Davies. Aeth ymlaen i gydnabod marwolaeth drist y Cynghorydd Cymuned, A Watts, cyn galw ar yr Aelodau canlynol a oedd yn dymuno talu teyrnged:-

- Yr Aelod o'r Aelod o’r Cabinet ar faterion Cymunedau Cadarn, Llesiant a Gwasanaethau Diwylliannol, Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol R Lewis, aelod lleol ar gyfer Abercynon a oedd wedi gweithio'n agos gyda'r cyn-Gynghorydd A Davies;

- Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol G Stacey, Aelod lleol ar gyfer Ton-teg a ffrind agos i'r cyn-Gynghorydd J David;

- Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol P Jarman, a arweiniodd deyrnged bersonol i'r cyn-Gynghorwyr J David ac A Davies (a marwolaeth y cyn-Gynghorydd a'r Cynghorydd Cymuned A Watts) ar ran Grŵp Plaid Cymru.

(Yn dilyn y cyhoeddiadau uchod, cynhaliwyd munud o dawelwch fel arwydd o barch at farwolaeth drist y cyn-Gynghorwyr A Davies, J David ac A Watts)

**15 Datganiad o Fuddiant**

Yn unol â Chod Ymddygiad y Cyngor, cafodd y datganiad o fuddiant canlynol ei wneud ynglŷn â'r agenda:

Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol S Rees-Owen mewn perthynas ag eitem 6 ar Agenda -
Diweddariad mewn perthynas â'r Coronafeirws yn Rhondda Cynon Taf - “Mae aelod o'r teulu wedi dal Covid-19 yn yr ysbyty”.

**16 Cyhoeddiadau**

Aeth y Llywydd ati i gydnabod deiseb gan Gynghorydd y Fwrdeistref Sirol J Brencher ar ran trigolion Pencoedcae  sy'n ymwneud â phryderon mewn perthynas â materion traffig a deiseb gan Gynghorydd y Fwrdeistref Sirol E Griffiths, ar ran trigolion Trehafod, sy'n galw am fesurau arafu traffig yn y pentref.

**17 Atal Rheolau Sefydlog**

Gwnaeth y Dirprwy Arweinydd ddatganiad mewn perthynas ag atal Rheol Trefniant 15.1 y Cyngor. Nododd, er mwyn ei gwneud yn haws cynnal y cyfarfod dros Zoom, fod Arweinwyr y Grwpiau wedi cytuno ymlaen llaw, lle y bydd pleidlais, bydd Arweinydd y Grŵp yn pleidleisio ar ran holl aelodau'r grŵp ar yr eitem.

Er mwyn rhoi'r gweithdrefnau diwygiedig ar waith, cynigiodd y Dirprwy Arweinydd atal Rheol Gweithdrefn 15.1 y Cyngor, sy'n nodi y bydd mater yn cael ei benderfynu os bydd mwyafrif ymhlith yr Aelodau sy'n pleidleisio ac sy'n bresennol yn yr ystafell adeg y bleidlais.

Yn dilyn trafodaeth **PENDERFYNWYD** atal Rheol Gweithdrefn 15.1 y Cyngor

**18 Cofnodion**

**PENDERFYNWYD** cymeradwyo cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 29 Gorffennaf 2020 yn rhai cywir yn amodol ar nodi bod Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol AS Fox wedi bod yn bresennol yn y cyfarfod.

**19 Datganiadau**

Siaradodd y Dirprwy Arweinydd, Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol M Webber er mwyn atgoffa Aelodau bod dwy flynedd wedi mynd heibio ers i'r Cyngor gael ei ofyn i gefnogi Rhybudd o Gynnig ar gyfer 'Cyfraith Lucy' a fyddai'n cyflwyno Deddfwriaeth yng Nghymru sy'n gwahardd gwerthu cŵn bach drwy drydydd parti. Cafodd y cynnig ei gymeradwyo, gyda chefnogaeth y grwpiau gwahanol. Yn eu tro, aeth Awdurdodau Lleol eraill ati i gefnogi Rhybudd o Gynnig tebyg yn ystod cyfarfodydd y Cyngor. Ar ddydd Llun, 5 Hydref 2020, cyhoeddwyd y bydd Deddfwriaeth bellach yn cael ei chyflwyno. Bydd rhagor o fanylion yn cael eu rhannu maes o law.

Aeth y Dirprwy Arweinydd ymlaen i ddiolch i Aelodau'r Cyngor am eu cefnogaeth, gan ddiolch hefyd i sefydliad 'Friends of the Animals' am ei waith parhaus.

**20 Cwestiynau gan yr Aelodau**

**Cwestiwn gan Gynghorydd y Fwrdeistref Sirol G R Davies i Arweinydd y Cyngor, Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol A. Morgan:**

““A wnewch chi ddatganiad ar yr effaith ar y Cyngor os ydy'r Deyrnas Unedig yn gadael yr Undeb Ewropeaidd heb gytundeb?”

“Will you make a statement on how the UK leaving the European Union without a deal will impact the Council?”

**Ymateb gan y Cynghorydd A. Morgan:**

Cyfeiriodd y Cynghorydd Morgan at 'Operation Yellow Hammer' a'r gwaith sydd wedi'i gyflawni mewn perthynas â'r effaith bosibl ar gyflenwad bwyd, yn benodol yr effaith ar fanciau bwyd, cadwyni bwyd a gwasanaethau caffael. Dywedodd yr Arweinydd bod cadwyni bwyd y Cyngor mewn perthynas â gwasanaethau prydau ysgol, prydau preswyl a phrydau yn y gymuned wedi bod yn ystyriaeth allweddol. Hyd nes y bydd bargen wedi'i chadarnhau, bydd angen i'r Cyngor barhau i ddiweddaru'r wybodaeth ac arwyddion sydd ar gael ar y tudalennau gwe mewn perthynas â chamau y mae angen i fusnesau lleol eu cymryd. Os na fydd bargen, bydd cynlluniau wrth gefn y Cyngor yn cael eu gweithredu.

**Cwestiwn Atodol gan y Cynghorydd G Davies**:

“Yn ôl Grant Thornton, Cynghorydd Busnes, mae RhCT yn 20% uchaf y mynegai Bregusrwydd Cymunedol, felly mae'n bwysig bod y Cyngor yn canolbwyntio ar y cymunedau ac yn cynnal trafodaethau gyda nhw. Mae gan Awdurdodau Lleol rôl allweddol i'w chyflawni wrth weithio gyda phartneriaid er mwyn ymateb i densiynau a throseddau casineb. Mae'r adroddiad yn dangos ei bod hi'n bosibl y bydd Brexit yn ei gwneud hi'n anodd i rai ardaloedd a bydd angen i Arweinwyr ein cymunedau baratoi i ymateb. Mae canran uchel o swyddi yn RhCT yn y maes cynhyrchu ac adwerthu, dyma'r sectorau sy'n debygol o ddioddef mwyaf yn sgil effeithiau Brexit. Mae'r adroddiad yn rhagweld gostyngiad o 2.1 yn y GYC yn Rhondda Cynon Taf os bydd Brexit caled. Mae hyn ar ben effeithiau Covid. Mae'r effaith economaidd sy'n gysylltiedig â pheidio â chael bargen yn debygol o gael effaith ar gartrefi a busnesau. Mae hyn yn fwy tebygol o arwain at fwy o bwysau ar wasanaethau cyhoeddus allweddol. Mae yna broblem gyda chaffael ac mae pryderon y bydd prisiau'n codi oherwydd cyfraddau a bydd diffyg meddyginiaeth a bwyd oherwydd oedi yn y porthladdoedd. Mae hyn yn debygol o effeithio ar wasanaethau'r Cyngor yn enwedig y rhai sy'n cefnogi'r henoed a'r ifanc. Mae angen cynlluniau eithaf eang. Rwy'n gwybod bod yr Arweinydd wedi siarad am gaffael ond mae'n fwy na chaffael yn unig. Ydych chi'n mynd i lunio rhywbeth cynhwysfawr i drafod y problemau enfawr y bydd Brexit yn eu hachosi ar gyfer RhCT ”

**Ymateb gan y Cynghorydd A. Morgan:**

Pwysleisiodd yr Arweinydd ei bwynt cynharach am y ffordd y mae'r Cyngor yn ymgysylltu â'r busnesau sydd wedi'u clustnodi fel rhai sydd angen cefnogaeth gan nodi y bydd RhCT yn edrych ar ei gynllun wrth gefn pan fydd gyda ni dealltwriaeth glir o'r fargen. I gloi, awgrymodd yr Arweinydd pe byddai'r Cynghorydd Davies yn dymuno cyflwyno cwestiwn atodol penodol trwy e-bost, byddai'n hapus i ymateb.

**Cwestiwn gan Gynghorydd y Fwrdeistref Sirol J. Brencher i’r Aelod o'r Cabinet ar faterion yr Amgylchedd, Hamdden a Gwasanaethau Treftadaeth, Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol A.Crimmings:**

“All yr Aelod o'r Cabinet rannu'r newyddion diweddaraf mewn perthynas â'r gwaith sy'n cael ei wneud er mwyn mynd i'r afael â'r difrod i Lido Ponty? ”

**Ymateb gan y Cynghorydd A. Crimmings**:

Cadarnhaodd y Cynghorydd Crimmings fod y prosiect yn cael ei gyflawni ar hyn o bryd, a bod 50% o'r gwaith wedi'i gwblhau, er bod ychydig o oedi wedi bod wrth ddod o hyd i ddeunyddiau oherwydd y Coronafeirws. Rhannodd y Cynghorydd Crimmings ddiweddariad mewn perthynas â'r gwaith ar y pwll, mae'r tri phwll yn cael eu hadnewyddu ac mae'r leinin newydd yn cael ei osod ar y prif bwll, mae'r gwaith paentio

wrth ochr y pwll bron wedi'i gwblhau, mae gwaith adnewyddu ystafell newid y pentref a thoiledau dynion a menywod eisoes wedi dechrau ac mae’r gwaith ar ardal y caffi yn gwneud cynnydd. Bydd waliau a lloriau newydd yn cael eu gosod ac yn cael eu paentio. Mae gwaith hefyd yn mynd rhagddo ar y ganolfan i ymwelwyr. Mae'r holl ardaloedd y tu allan wedi'u hail-baentio ac mae'r toiledau y tu allan wedi'u cwblhau i sicrhau bod gan y cyhoedd fynediad i'r cyfleusterau tra bod y parc ar agor ”

**Cwestiwn Atodol gan y Cynghorydd J. Brencher:**

**“**A yw'r cyngor yn rhagweld dyddiad ailagor ar gyfer y Lido cyn belled â bod y cyfyngiadau cyfredol yn caniatáu hynny?"

**Ymateb gan y Cynghorydd A. Crimmings**:

Dywedodd y Cynghorydd Crimmings y byddai'r Lido yn ailagor ar ddiwedd Ionawr 2021, sydd yn gynt na'r disgwyl.

**Cwestiwn gan Gynghorydd y Fwrdeistref Sirol S. Bradwick i'r Aelod o'r Cabinet ar faterion yr Amgylchedd, Hamdden a Gwasanaethau Treftadaeth, Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol A. Crimmings -**

“All yr Aelod o'r Cabinet rannu diweddariad ar y cynlluniau amrywiol sy'n mynd rhagddo ym Mharc Gwledig Cwm Dâr yn rhan o fenter Parc Rhanbarthol y Cymoedd? ”

**Ymateb gan y Cynghorydd A. Crimmings**:

Rhannodd y Cynghorydd Crimmings drosolwg mewn perthynas â rhai o'r datblygiadau, fel y mannau chwarae lle mae rhan fawr o'r gwaith adnewyddu sylweddol wedi'i gwblhau er mwyn adlewyrchu harddwch naturiol y parc gwledig ac annog her gorfforol. Disgwylir y bydd y cyfleuster llogi beiciau a'r gweithdy newydd wedi'u trosglwyddo yng nghanol mis Tachwedd ac yn cael eu cwblhau erbyn diwedd mis Rhagfyr. Mae'r ddau lwybr beicio bron â chael eu cwblhau. Mae'r gwaith adnewyddu mewn perthynas â'r gwesty wedi'i gwblhau ac mae'r gwesty, sy'n cael ei reoli'n annibynnol, wedi elwa o waith adnewyddu ar yr ystafell ymolchi ac ystafell wely. Mae'r gwaith ar y bloc cawod a'r holl waith allanol mewn perthynas â'r bloc cawod wedi'i gwblhau."

**Doedd y Cynghorydd ddim wedi gofyn cwestiwn atodol i'r Aelod o'r Cabinet**.

**Cwestiwn gan Gynghorydd y Fwrdeistref Sirol M.Forey i Arweinydd y Cyngor, y Cynghorydd Bwrdeistref Sirol A.Morgan:**

“Sut ydy'r Cyngor yma'n cyfathrebu â thrigolion ac yn sicrhau bod negeseuon sy'n ymwneud â chadw pellter cymdeithasol, arferion hylendid dwylo a gwisgo gorchudd wyneb yn y sefyllfaoedd angenrheidiol yn cyrraedd ein trigolion?”

**Ymateb gan y Cynghorydd Morgan**

Dywedodd yr Arweinydd mai defnyddio'r cyfryngau cymdeithasol yw'r dull mwyaf effeithiol o rannu negeseuon mewn perthynas â chadw pellter cymdeithasol a gwisgo gorchudd wyneb ac arferion hylendid dwylo. Mae 8,763 o negeseuon penodol sy'n ymwneud â Covid wedi cael eu rhannu ar Facebook, Twitter ac Instagram gyda 99,210 o gliciau ar wefan y Cyngor. Lefel cyrhaeddiad y negeseuon yma yw 80,277,457. Mae

carfanau canol tref wedi bod yn dosbarthu posteri sy'n hyrwyddo'r negeseuon yma i siopau a busnesau. Mae modd i fusnesau lawrlwytho posteri o wefan y Cyngor. Mae'r Cyngor wedi cyflawni lefel uchel o waith ymgysylltu â'r sector gwirfoddol, gan rannu fideos a chynnal dwy sesiwn holi ac ateb ar y cyfryngau cymdeithasol. I gloi, dywedodd yr Arweinydd ei bod hi'n bwysig ailadrodd y negeseuon allweddol.

**Doedd y Cynghorydd ddim wedi gofyn cwestiwn atodol i'r Aelod o'r Cabinet**.

**Cwestiwn gan Gynghorydd y Fwrdeistref Sirol T. Williams i Ddirprwy Arweinydd y Cyngor, Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol M. Webber:**

“A all y Dirprwy Arweinydd rannu'r wybodaeth ddiweddaraf am raglenni Prentisiaethau a Chyfleoedd i Raddedigion y Cyngor?"

**Ymateb y Cynghorydd M Webber**:

Dywedodd y Dirprwy Arweinydd fod y cam hwn, sef ail gam y cynllun prentisiaeth bellach, ar agor ar gyfer ceisiadau ar hyn o bryd. Mae'r broses ymgeisio'n fyw ar-lein. Mae cyfanswm o 14 prentisiaeth ar gael, gan gynnwys yn y gwasanaethau canlynol: - Pensiynau, Twristiaeth, Achlysuron a Hamdden. Mae camau blaenorol y rhaglen eleni wedi arwain at recriwtio 12 prentis ac 18 swyddog graddedig.

**Cwestiwn atodol gan y Cynghorydd T Williams:**

“A yw ymrwymiad y Grŵp Llafur i ddarparu 150 o swyddi yn ystod tymor y Cyngor wedi'i gyflawni? ”

**Ymateb gan y Cynghorydd Webber:**

Dywedodd y Cynghorydd Webber y bydd ffigur eleni'n uwch na'r ymrwymiad a gafodd ei wneud. Mae'r Cyngor yn falch bod nifer fawr o'r Swyddogion Graddedig yn parhau i weithio yn y Cyngor. Mae rhai yn manteisio ar gyfleoedd pellach o fewn y Cyngor ac mae gan y Cyngor enw da am hyrwyddo hynny. Mae nifer y ceisiadau sy'n cael eu derbyn yn enfawr ac mae'r safon yn uchel felly bydd yr ymrwymiad yn cael ei anrhydeddu.

**Cwestiwn gan Gynghorydd y Fwrdeistref Sirol G. W. Hughes i Arweinydd y Cyngor, Y Cynghorydd A Morgan**

“Sut mae'r Cyngor yn ymgysylltu â sefydliadau partner er mwyn ymateb i glystyrau o'r coronafeirws sy'n cael eu nodi yn ein cymunedau? ”

**Ymateb gan y Cynghorydd A. Morgan:**

Esboniodd yr Arweinydd fod y gwaith yma'n cael ei gyflawni gan y Garfan Rheoli Digwyddiadau. Mae'r garfan yn cynnwys yr Awdurdod Lleol, y Bwrdd Iechyd Lleol, Heddlu De Cymru a phartneriaid eraill sydd bellach yn cwrdd bob dydd. Mae staff y cynllun olrhain yn bwydo'r wybodaeth yn ôl i'r Garfan Rheoli Digwyddiadau ac yn nodi lleoliad y clystyrau neu achosion o drosglwyddo yn y gymuned. Dywedodd yr Arweinydd ei fod yn cysylltu â'r Bwrdd Iechyd Lleol yn rheolaidd ac mae hynny'n dyst i'r berthynas gryf rhwng y Bwrdd Iechyd Lleol, Iechyd Cyhoeddus ac ymhlith carfanau ar lawr gwlad lle mae'r wybodaeth yn cael ei rhannu.

**Doedd y Cynghorydd ddim wedi gofyn cwestiwn atodol i'r Aelod o'r Cabinet**.

**Cwestiwn gan Gynghorydd y Fwrdeistref Sirol D. Owen-Jones i'r Aelod o'r Cabinet ar faterion Cymunedau Cryfach, Llesiant a Gwasanaethau Diwylliannol, Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol R.Lewis:**

"Sut mae'r Cyngor yn cefnogi preswylwyr sy'n agored i niwed, yn enwedig o ran materion iechyd meddwl, yn ystod y pandemig coronafeirws? "

**Ymateb gan y Cynghorydd R Lewis:**

Dywedodd yr Aelod o'r Cabinet fod yr effaith negyddol ar iechyd meddwl pobl wedi cael ei chydnabod yn gynnar yn ystod y pandemig. O ganlyniad i hynny, sefydlwyd grŵp llywio cymorth i'r gymuned er mwyn dadansoddi dros 15,000 o gysylltiadau â phreswylwyr sy'n derbyn galwadau ffôn cyfeillgar er mwyn mynd i'r afael ag unigrwydd ac arwahanrwydd. Roedd preswylwyr wedi croesawu'r gwaith yma. Mae cynigion wedi cael eu drafftio gan y grŵp llywio cymorth. Bydd y cynigion yn cael eu cyflwyno i'r Comisiynydd Rhanbarthol i weld a oes modd dod o hyd i gyllid pellach i helpu preswylwyr a allai fod yn wynebu anawsterau o ran iechyd meddwl yn ystod yr amser anodd yma.

**Cwestiwn Atodol gan y Cynghorydd D Owen-Jones:**

"Mae nifer o sefydliadau trydydd parti a sectorau gwirfoddol yn ein cymunedau sydd hefyd yn darparu cymorth a gwasanaethau i'r bobl hynny sydd fwyaf agored i niwed ac sydd efallai angen cymorth, pa gymorth ydyn ni'n ei gynnig i'r cyrff ac unigolyn yma o RCT? "

**Ymateb gan y Cynghorydd Lewis:**

Dywedodd y Cynghorydd Lewis fod y grŵp cymorth cymunedol sydd wedi'i enwi'n cynnwys 18 o bartneriaid gwahanol ac yn defnyddio 7 canolfan cymunedau cydnerth ledled y sir. Mae pob un wedi'i arwain gan gydlynydd, sy'n aelod o staff y cyngor sy'n cael ei gefnogi'n rhithwir gan sefydliadau eraill. Dywedodd y Cynghorydd Lewis fod gweithio mewn partneriaeth yn allweddol ac mae'n hanfodol yn dilyn y cynllun gwarchod sydd wedi dod i ben dros dro. Mae cymorth bwyd yn dal i gael ei gynnig i breswylwyr, naill ai gan y cyngor neu Lywodraeth Cymru yn ogystal â'r gwasanaeth gwifren achub bywyd a mwy sy'n cael ei reoli gan y Gwasanaethau i Oedolion. Mae preswylwyr hefyd yn cael eu cyfeirio i Age Connect Morgannwg a sefydliad Cyngor ar Bopeth os oes gyda nhw bryderon sy'n ymwneud â materion ariannol a threfniadau ffyrlo. I gychwyn, derbyniodd y Cyngor 1,200 o geisiadau gan wirfoddolwyr ac mae'r rhain yn dal i weithio gyda'r Cyngor i helpu'r unigolion sydd fwyaf agored i niwed. I gloi, dywedodd y Cynghorydd Lewis fod y trydydd sector a'r gwirfoddolwyr yn chwarae rôl allweddol wrth gynorthwyo'r Cyngor ar hyn o bryd.

**Cwestiwn gan Gynghorydd y Fwrdeistref Sirol D. Williams i Arweinydd y Cyngor, Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol A. Morgan:**

"A wnaiff Arweinydd y Cyngor ddatganiad am y difrod a achoswyd i'r seilwaith ledled y Sir yn ystod y llifogydd yn gynharach eleni? "

**Ymateb gan y Cynghorydd Morgan:**

Rhoddodd y Cynghorydd Morgan wybod bod trafodaethau yn parhau gyda

Llywodraeth Cymru am y costau sy'n gysylltiedig â'r difrod i'r seilwaith. Ar hyn o bryd, amcangyfrifir bod difrod gwerth £70 miliwn wedi'i wneud i bontydd, ffyrdd a cheuffosydd. Dydy'r ffigur yma ddim yn cynnwys cost y difrod i domen Tylorstown. Mae £ 2.5 miliwn eisoes wedi'i wario ar gam 2 y flwyddyn yma. Bydd cam 3 a cham 4 yn cael eu comisiynu'r flwyddyn nesaf. Rhoddodd yr Arweinydd wybod bod y Cyngor wedi comisiynu llawer o ymgynghorwyr dylunio, peirianwyr, contractwyr yn ogystal â charfanau'r Cyngor ei hun.

- Roedd £2filiwn o adnoddau'r Cyngor eisoes wedi cael ei wario adeg y llifogydd. Wedi hynny;
- £2.5miliwn o gymorth brys gan LC;
- Dros £3miliwn gan Weinidog yr Amgylchedd tuag at waith brys pellach, paratoi ar gyfer y gaeaf a grantiau cyfalaf;
- Dros £3miliwn o gyllid Ffyrdd Cydnerth (roedd hyn yn rhan o gais a gafodd ei gyflwyno ar ddechrau'r flwyddyn, ym mis Chwefror eleni, tuag at goridorau trafnidiaeth allweddol a chreu rhwystrau llifogydd mwy cydnerth yn y dyfodol);
- Derbyniwyd llythyr o gefnogaeth gan LC i gadarnhau y bydd yn gwarantu'r arian rhwng £6miliwn a 7miliwn y bydd ei angen i atgyweirio difrod, dechau'r gwaith paratoi ar gyfer y gwaith dylunio trwsio a'r seilwaith ceuffosydd mawr. Mae LlC ac awdurdodau lleol eraill wedi gwarantu y bydd hyn yn cael ei wneud.

I gloi, dywedodd yr Arweinydd y bydd rhwng £12-13milwin yn cael ei wario eleni ar adnewyddu ceuffosydd ac atgyweirio'r difrod yn dilyn y storm. Mae achos busnes arall wedi'i gyflwyno i LC.

## 21 Rhaglen Waith y Cyngor 2020-21

Rhannodd Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Democrataidd a Chyfathrebu'r newyddion diweddaraf mewn perthynas â rhaglen waith y Cyngor ar gyfer blwyddyn y Cyngor 2020-21. Esboniodd ei bod hi'n bosibl y bydd gofyn i gynnal cyfarfod Cyngor ychwanegol ym mis Chwefror 2021 i drafod y materion sy'n cael eu trafod gan y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu cyn bo hir, ond hefyd gan ei bod hi'n bosibl y byddai'n well ymestyn y gwaith sydd wedi'i nodi i'w drafod yn ystod cyfarfod nesaf y Cyngor ar 21 Hydref 2020 dros sawl cyfarfod. Bydd Aelodau'n cael gwybod os bydd angen gwneud hyn.

## 22 Diweddariad gan Arweinydd y Cyngor a'r Prif Weithredwr mewn perthynas â'r Coronafeirws yn Rhondda Cynon Taf

Dangosodd y Prif Weithredwr data Cymru gyfan ar gyfer y ddau ddangosydd allweddol yn ystod yr wythnos yn gorffen 25 Awst 2020. Roedd y cyntaf yn nodi nifer yr achosion fesul pob 100,000 o'r boblogaeth a'r ail yn dangos nifer yr achosion positif. Dangosodd y sleid yma bod nifer yr achosion positif yn isel o'i gymharu â'r mis dilynol. Roedd hyn yn arddangos bod y gyfradd o achosion positif wedi cynyddu'n gyflym ledled Cymru. Yn ystod y cyfnod sy'n dechrau 14 Mai hyd at ddiwedd Awst, roedd nifer yr achosion fesul 100,000 o'r boblogaeth yn isel (roedd y cynnydd mawr yn cynrychioli'r achosion ym Merthyr Tudful yn dilyn digwyddiad yn un o'r ffatrïoedd, digwyddiad unigryw yr oedd modd ei reoli'n effeithiol gan y carfanau profi, tracio ac olrhain).

O ddiwedd mis Gorffennaf hyd at ddiwedd Awst a dechrau mis Medi, roedd nifer yr achosion wedi parhau i fod yn isel, yn is na 25% o ran y gyfradd o achosion. Roedd hyn hyd at Ŵyl y Banc mis Awst, pan welwyd cynnydd mawr a chyflym.

Aeth Cyfarwyddwr Iechyd a Diogelwch y Cyhoedd, a Gwasanaethau Cymuned ymlaen â'r cyflwyniad, a oedd yn nodi nifer yr achosion newydd ar gyfer bob

dydd rhwng 17 Medi a 2 Hydref. Yn ystod y cyfnod yma yn RhCT, roedd yna nifer uchel o achosion am gyfnod hir, hyd at 80 mewn diwrnod. Gan ystyried y boblogaeth, y disgwyl yw bod y lefelau yn uwch yn RhCT nag ym Merthyr Tudful a Phen-y-bont ar Ogwr.

Dywedodd y Cyfarwyddwr bod cynnydd graddol wedi bod yn y gyfradd achosion positif dros gyfnod o bythefnos, roedd hyn yn cadarnhau bod yna mwy o achosion yn y gymuned na'r disgwyl. Heddiw (7 Hydref 2020) y gyfradd o achosion yn RhCT yw 10.2%. Er mwyn rhoi rhywfaint o gyd-destun mewn perthynas â'r ffigur yma, nododd y Cyfarwyddwr bod Llywodraeth Cymru a'r Prif Swyddog Meddygol wedi gosod y trothwy ar gyfer gweithredu ar 5%.

Roedd y rhan o'r cyflwyniad sy'n dangos y gyfradd o achosion ar gyfartaledd dros saith diwrnod yn dangos cynnydd cyflym yng nghanol mis Medi. Yn ardal Cwm Taf Morgannwg ac yn RhCT yn gyffredinol, roedd cynnydd graddol o ran y gyfradd gronnol. Tynnodd y Cyfarwyddwr sylw at y ffaith y byddai disgwyl i'r cyfyngiadau sy'n gysylltiedig â'r cyfyngiadau symud lleol a ddaeth i rym yn RhCT ar 17 Medi effeithio ar y ffigurau yma.

Dywedodd y Cyfarwyddwr nad yw achosion yn y gymuned yn arwain at gynnydd yn nifer yr achosion yn Ysbyty Brenhinol Morgannwg. Mae'r gyfradd o ran nifer yr heintiau wedi cynyddu'n barhaus ers canol mis Medi yn RhCT. Mae hyn yn awgrymu bod nifer yr heintiau'n parhau i gynyddu yn ein cymunedau. Esboniodd y Cyfarwyddwr mai'r pryder yw bod y grwpiau oedran 40-49 a 50-59 ddim yn ymgysylltu gymaint â'r grwpiau eraill o ran cynnal profion yn ein cymunedau.

Daeth Cyfarwyddwr Iechyd a Diogelwch y Cyhoedd a Gwasanaethau Cymuned â'r cyflwyniad i ben a rhannu'r newyddion diweddaraf mewn perthynas â'r gwaith gorfodi sydd wedi'i wneud gan y Cyngor. Cafodd Aelodau wybod bod carfan diogelu'r cyhoedd y Cyngor a'i phartneriaid wedi bod yn rhagweithiol, ac yn ystod y pedwar mis diwethaf mae'r garfan wedi cyflawni 3,000 o ymyraethau cadarnhaol i gefnogi ystod o fusnesau. Un maes sydd wedi derbyn sylw yw'r diwydiannau diwydiannol risg uchel, megis cynhyrchwyr bwyd, yn ogystal ag ysgolion, colegau a'r Brifysgol. Mae'r garfan canol tref wedi ymweld â nifer o fusnesau i ddarparu ystod eang o gyngor a chefnogaeth iddynt.

Mae'r swyddogion wedi ymweld â bron i 500 eiddo er mwyn adolygu'r mesurau atal Covid sydd ar waith yn ogystal â sicrhau bod yr eiddo yn cydymffurfio â rheoliadau Covid. Ers Gorffennaf, mae swyddogion wedi ymweld â dros 200 eiddo yng nghwmni'r Heddlu.

Mae'r Cyngor wedi cyhoeddi 11 hysbysiad ffurfiol a 37 hysbysiad gwella eiddo (mae'r hysbysiad yma'n caniatáu 48awr er mwyn gwella'r mesurau sydd ar waith, mae'r mwyafrif helaeth wedi cydymffurfio â'r hysbysiadau yma. Mae 8 achos wedi codi lle mae'r eiddo wedi cau ar ôl derbyn tystiolaeth sy'n dangos diffyg cydymffurfio). Cyn bo hir, bydd swyddogion gorfodi ychwanegol yn cael eu recriwtio, bydd 23 aelod arall o staff yn gweithio ochr yn ochr â swyddogion gorfodi cyfredol a'r Heddlu i gynorthwyo busnesau i gydymffurfio â'r rheoliadau yn ogystal â chymryd camau gweithredu lle bo angen.

Cafodd 155 o achosion eu cadarnhau ar draws 53 o ysgolion yn RhCT. Roedd Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Addysg a Chynhwysiant yn ogystal â Gwasanaethau Diogelwch y Cyhoedd wedi darparu llawer iawn o gefnogaeth i'r Penaethiaid. Mae'r ysgolion wedi bod yn rhagweithiol o ran y mater yma ac mae'r broses profi ac olrhain bellach yn llawer mwy effeithlon ac effeithiol.

Ym maes Gofal Cymdeithasol, nodwyd 6 achos ar draws y 26 cartref gofal preifat, dim ond un sydd wedi'i gadarnhau fel achos â chanlyniad prawf positif. O'r 12 achos mewn cartrefi preswyl, mae 7 wedi'u cadarnhau. Mae 16 achos positif wedi'u nodi mewn darpariaeth Gofal Cartref, mae 13 ohonynt wedi'u cadarnhau a chadarnhawyd 5 achos positif mewn llety byw â chymorth. Mae yna drefniadau profi rhagweithiol mewn perthynas â chartrefi gofal ac yn Ysbyty Brenhinol Morgannwg.

Rhoddodd y Cyfarwyddwr ddiweddariad mewn perthynas â nifer yr achosion yn Ysbyty Brenhinol Morgannwg sydd heddiw (7 Hydref) wedi cyrraedd 127 o achosion positif. Mae 21 marwolaeth yn gysylltiedig â'r feirws wedi'i nodi. Mae nifer o fesurau dros dro wedi cael eu rhoi ar waith o ganlyniad i'r achosion. Mae hyn yn cynnwys gohirio llawdriniaeth ddewisol, ac eithrio rhai achosion brys, dargyfeirio derbyniadau brys ac eithrio plant, dargyfeirio cleifion Gwasanaethau Ambiwlans Cymru i ysbytai eraill, eto ac eithrio achosion sy'n ymwneud â phlant. Mae rhai gwasanaethau fel y Gwasanaeth Iechyd Meddwl yn parhau i weithredu. Mae cynllun 15 pwynt ar waith sy'n cael ei weithredu gan y Bwrdd Iechyd yn yr ysbyty er mwyn rheoli'r sefyllfa. Cafodd y Cyngor wybod bod achosion wedi'u nodi mewn ysbytai eraill, mae hynny'n gosod pwysau ychwanegol ar yr holl wasanaethau.

Cafodd y newyddion diweddaraf mewn perthynas â'r fenter Profi, Olrhain a Diogelu ei rhannu. RhCT yw'r awdurdod sy'n arwain y gwasanaeth ar gyfer rhanbarth Cwm Taf Morgannwg, sy'n cwmpasu'r tri awdurdod lleol, Iechyd Cyhoeddus Cymru a'r Bwrdd Iechyd. Mae mwyafrif helaeth y bobl y cysylltwyd â nhw wedi bod yn gefnogol ac yn gydweithredol. Mae nifer yr achosion wedi cynyddu'n sylweddol ac mae hynny wedi rhoi pwysau ar y gwasanaeth. Ar hyn o bryd mae 100 aelod o staff wedi'u cyflogi gan y gwasanaethau. Rydyn ni'n gobeithio cynyddu'r nifer yma i dros 130 aelod o staff. Mae'r holl staff sydd wedi'u hadleoli a staff newydd wedi bod yn gweithio'n galed i gyflawni'i waith dros yr wythnosau diwethaf.

I gloi, rhoddodd y Cyfarwyddwr grynodeb o bwyntiau allweddol ei gyflwyniad.

Dymunodd yr Arweinydd ddiolch i'r staff sy'n gweithio'n ddiflino, oriau estynedig ac ar benwythnosau, mae carfanau Rheoli Digwyddiadau yn cwrdd bob dydd i rannu gwybodaeth â Llywodraeth Cymru. Pwysleisiodd yr Arweinydd fod yr awdurdod lleol bellach yn wynebu 200 o achosion fesul 100,000 o bobl sy'n gynnydd sylweddol. Mae'r cyfartaledd treigl 7 diwrnod yn dangos 430 o achosion yn ystod y saith diwrnod diwethaf. Dywedodd yr Arweinydd mai'r ysgol yw'r man mwyaf diogel i blant o hyd, gan fod data a thystiolaeth olrhain cysylltiadau'n adlewyrchu'r hyn sy'n digwydd yn ein cymunedau ac nid yn ein hysgolion. Dymunodd ddiolch i'r carfanau Addysg am eu holl waith caled ac am y cymorth sydd wedi cael ei ddarparu i'r holl ysgolion. Mae'r gwaith yma wedi cael ei gydnabod gan y Gweinidog dros Addysg yn ddiweddar.

Hefyd rhannodd yr Arweinydd y newyddion diweddaraf mewn perthynas â'r canolfannau profi dros dro yn Abercynon a Chwm Clydach sydd wedi gweld gostyngiad yn nifer y preswylwyr sy'n mynychu. Mae'r canolfan brofi ym mhen uchaf Rhondda Fawr bellach yn weithredol ac mae cynlluniau ar y gweill i agor canolfan arall yn ardal Cwm Rhondda Fach a fydd yn gwella mynediad at brofion. Gofynnodd yr Arweinydd bod Aelodau'n annog preswylwyr lleol i gael eu profi os oes ganddynt symptomau er mwyn i ni gael dealltwriaeth well o'r achosion sy'n cael eu trosglwyddo yn y gymuned.

I gloi, pwysleisiodd yr Arweinydd pa mor bwysig yw hi fod preswylwyr sy'n gymwys i gael brechlyn ffliw yn manteisio ar y cyfle hynny. Bydd y Cyngor yn cynnig cyfle i bob aelod o staff gael brechiad ffliw, yn ôl y drefn arferol.

Derbyniwyd cwestiynau i ddechrau gan yr Arweinwyr Grŵp: -

Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol P. Jarman (Grŵp Plaid Cymru)

1. Os ydy plentyn sy'n gymwys i Brydau Ysgol am Ddim yn cael ei ofyn i hunan-ynysyu, a fyddan nhw'n parhau i dderbyn y prydau hyn?

2. Sut mae cyfradd heintiau Ysbyty Brenhinol Morgannwg wedi cynyddu os oes gweithdrefnau rheoli heintiau ar waith? Pam ydy'r feirws wedi effeithio gymaint ar yr ysbyty a sut ddigwyddodd hyn?

3. Beth yw statws yr haint? A yw hon yn ail don ai peidio?

Dywedodd yr Arweinydd bod nifer y profion a gafodd eu cynnig yn ystod anterth y pandemig llawer yn is na beth sy'n cael ei gynnig heddiw. Mae cynnydd cyflym mewn rhai ardaloedd, heintiau a gafwyd yn yr ysbyty, ac awgrymwyd bod cleifion â covid-19 yn mynd i'r ysbyty. Fodd bynnag, mae profion torfol a mesurau rheoli pellach ar waith yn ogystal â gweithredu'r cynllun profi ac olrhain er mwyn nodi achosion yn gyflym.

Cadarnhaodd yr Arweinydd fod yr awdurdod lleol yn edrych ar sut i roi cymorth i'r teuluoedd hynny sydd â hawl i Brydau Ysgol am Ddim ac y bydd buddsoddiadau ac ymyraethau pellach yn cael eu cyhoeddi yn ystod yr ychydig ddyddiau nesaf. Er mwyn cefnogi hyn, dywedodd y Cyfarwyddwr Addysg a Chynhwysiant fod yr awdurdod lleol yn aros i Lywodraeth Cymru gyhoeddi'r telerau ac amodau a bydd y Cyngor yn bwrw ymlaen â'r gwaith yma cyn gynted ag y byddan nhw ar gael. Pwysleisiodd y Cyfarwyddwr yr angen i ddod o hyd i'r ffordd fwyaf diogel a mwyaf effeithiol o gael adnoddau i'r teuluoedd cymwys hynny ac mae trafodaethau'n parhau gyda chydweithwyr tracio ac olrhain a'r garfan data i ddod o hyd i ddulliau i adnabod y dysgwyr sy'n hunan-ynysu a'r rhai sy'n gymwys am gymorth yn gyflym. Dywedodd y Cyfarwyddwr fod yr ysgolion wedi bod yn rhagorol wrth nodi plant sy'n gysylltiadau agos a'u bod wedi cael eu cefnogi gan uwch swyddogion a staff arbenigol trwy gydol y broses.

Cododd Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol M Powell (Grŵp Annibynnol RhCT) ymholiadau mewn perthynas â'r materion canlynol: -

1. Pam nad ydyn ni'n llunio mapiau gwybodaeth ar gyfer wardiau unigol? Pam ydy'r ardaloedd sydd heb eu heffeithio gan yr achosion yn cael eu gosod dan gyfyngiadau lleol?

2. Beth sydd ddim yn cael ei wneud yn Ysbyty Brenhinol Morgannwg a pham nad oedd yr ysbyty wedi gweithredu'r cynllun 15 pwynt?

3. A yw'r ysbytai maes wedi cael eu dadgomisiynu?

Ymatebodd yr Arweinydd i ymholiadau gan esbonio nad oedd yr ysbyty maes wedi cael ei drosi gan nad yw hi'n angenrheidiol. Fodd bynnag mae'r Bwrdd Iechyd Lleol wedi sefydlu ysbyty maes sydd â digon o le ar gyfer 250 o gleifion a'r gallu i ymestyn y capasiti i 400 os bydd angen.

Cafodd y mapiau yma'u dylunio i ddangos y data yn lefelau cynnyrch ehangach is. Mae'r data wedi cael ei ddadansoddi yn y modd yna. Bydd cyfyngiadau symud lleol yn arwain at heriau gan fod yr holl gymunedau yn gyd-ddibynnol a byddai trosglwyddo negeseuon yn anodd iawn os oedd wardiau gwahanol yn dilyn cyfyngiadau gwahanol. Cadarnhaodd yr Arweinydd bod y Cyngor yn dilyn gweithdrefnau ar sail trafodaethau partneriaid gyda'r Bwrdd Iechyd a'r heddlu.

Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol J. James - Arweinydd Grŵp y Ceidwadwyr

Talodd y Cynghorydd James deyrnged i'r cyn-gynghorwyr y soniwyd amdanynt ar ddechrau'r cyfarfod.

1. Mae Llywodraeth yr Alban wedi cyhoeddi cyfyngiadau mwy llym, a fydd Llywodraeth Cymru yn dilyn yr un drefn?

2. Mae llawer o fabolgampwyr yn ei chael hi'n anodd dod o hyd i leoliadau chwaraeon lle mae modd iddyn nhw baratoi ar gyfer cystadlaethau'r flwyddyn nesaf a does dim modd iddyn nhw groesi ffiniau'r sir. A oes modd ystyried y mabolgampwyr hynny a'r plant sydd ynghlwm â chlybiau chwaraeon y tu allan i fwrdeistref y sir?

Pwysleisiodd yr Arweinydd na allai gefnogi hynny er ei fod yn cydymdeimlo â'r mabolgampwyr yn unol â'r rheoliadau cyfredol. Cafwyd ymholiadau gan glybiau nofio a llawer o gymdeithasau chwaraeon eraill yn gofyn am ganiatâd i weithredu.

Ymatebodd yr Arweinydd hefyd i'r cwestiynau canlynol gan Aelodau eraill: -

- Faint o staff sy'n gweithio yn y gwasanaethau rheng flaen?;
- Mae'r Alban wedi canslo pob arholiad, a fydd Cymru yn dilyn yr un drefn ac a fydd gwyliau ychwanegol yn ystod Hanner Tymor?;
- A oes mesurau ychwanegol ar waith yn lleol neu ar lefel genedlaethol er mwyn mynd i'r afael â'r feirws?
- Mae'r rheiny a gafodd eu cyfarwyddo i warchod bellach yn cael eu cynghori i ddychwelyd i'r gwaith gan eu cyflogwyr, a fydd Llywodraeth Cymru yn gweithredu?
- Mae trigolion wedi wynebu problemau wrth drefnu brechiad ffliw, maen nhw wedi cael eu cynghori i deithio i feddygfa arall, oes cyflenwad ar gael yn lleol?
- Mae'r cynllun profi ac olrhain yn allweddol er mwyn atal lledaeniad y feirws, faint o gysylltiadau sy'n cael eu holrhain o fewn y 24/48/72 awr gyntaf? Bydd nifer y staff sydd ar gael yn cael ei gynyddu i 130, oes yna bwysau ar y lefelau sydd wedi'u modelu?
- Beth yw'r weithdrefn gyfredol ar gyfer llawdriniaeth ddewisol a'r rheiny sydd ar restrau aros?

Wrth ymateb i ymholiadau, cadarnhaodd yr Arweinydd bod gan y Cyngor

gynlluniau wrth gefn er mwyn cynnal gwasanaethau sydd ar y rheng flaen, megis gwasanaethau gofal cymdeithasol. Cyfeiriwyd hefyd at staff yr adran Cyllid sy'n wynebu terfynau amser, yn prosesu grantiau ac yn ymdrin â channoedd o ymholiadau a cheisiadau. Dywedodd yr Arweinydd fod darparu gofal i staff y Cyngor yn parhau i fod yn flaenoriaeth.

Cadarnhaodd yr Arweinydd fod y Cyfarwyddwr Addysg a Gwasanaethau Cynhwysiant yn cynnal trafodaethau gyda Llywodraeth Cymru mewn perthynas â'r cynlluniau ar gyfer arholiadau'r flwyddyn nesaf a phryderon mewn perthynas â chyflawniad yr ysgolion sydd efallai'n effeithio ar yr ardaloedd mwyaf difreintiedig.

Cadarnhaodd Cyfarwyddwr Adnoddau Dynol fod y Cyngor yn cynnal asesiad risg meddygol llawn ar gyfer staff sy'n dychwelyd i'r gwaith gyda'r aelod o staff a'u rheolwyr cyn bod modd iddyn nhw ddychwelyd i'r gwaith yn ddiogel. Yn dilyn yr adolygiad, mae modd i staff ddychwelyd i'r gwaith, gan weithio gartref ble mae modd neu ddod o hyd i swyddi amgen ble y bo'n addas.

Rhoddodd yr Arweinydd wybod y byddai'r wybodaeth mewn perthynas â'r brechlyn ffliw yn cael ei rhannu â'r holl Aelodau a byddai'r Bwrdd Iechyd yn cael gwybod am unrhyw broblemau penodol mewn meddygfeydd penodol.

Rhannodd Cyfarwyddwr Iechyd a Diogelwch y Cyhoedd a Gwasanaethau Cymuned y data canlynol:-

- Yn ystod y 7 diwrnod diwethaf, hyd at 2 Hydref 2020, roedd yna 447 o achosion yn RhCT, cafodd 84% o achosion eu holrhain yn llwyddiannus, nodwyd 1,044 o gysylltiadau. Mae hyn yn golygu bod 82% o achosion wedi derbyn y sylw priodol. Roedd 734 o achosion a 1836 o gysylltiadau yn y rhanbarth cyfan. Gan amlaf, mae rhwng 90 a 100 o achosion newydd bob dydd.

I gloi, rhoddodd yr Arweinydd ddiweddariad mewn perthynas â llawdriniaeth ddewisol gan ddweud bod trigolion sydd angen gofal yn derbyn y gofal hynny lle bo modd. Mae'r Bwrdd Iechyd yn annog unrhyw drigolyn sydd angen cymorth meddygol i geisio'r cymorth hynny.

**23 Rhybudd o Gynnig**

Trafod Rhybudd o Gynnig sydd wedi'i gyflwyno yn enwau Cynghorwyr y Fwrdeistref Sirol S.Evans, P.Jarman, S.Rees Owen, M.Weaver, E,Webster, A.Chapman, H.Fychan, J.Davies, J. Cullwick,G.Davies, K.Morgan E. Griffiths, D.Grehan, J.Williams, A.Cox, E.Stephens, L. Jones,

Mae Grŵp Plaid Cymru yn galw ar y Cyngor i weithredu er mwyn cefnogi'r unigolion sydd fwyaf agored i niwed yn ein cymunedau sydd wedi dioddef o ganlyniad i'r Coronafeirws ac sy'n parhau i ddioddef.

Mae nifer o bobl hŷn yn dioddef o "unigrwydd y cyfnod clo" ac mae'r rheiny sy'n wynebu anawsterau iechyd meddwl, rhieni sengl, yn ogystal â chynhalwyr plant a phobl ifainc ag anghenion dysgu ychwanegol ac anableddau bellach mewn sefyllfa sy'n golygu nad oes modd iddyn nhw fanteisio ar eu rhwydweithiau cymorth neu wasanaethau. Mae'n hollbwysig sylweddoli effaith y Coronafeirws ar y grwpiau sy'n agored i niwed

Rydyn ni'n galw ar y Cyngor i ddarparu adroddiad ysgrifenedig i Aelodau ar

unwaith. Dylai'r adroddiad gynnwys y cymorth sy'n cael ei ddarparu ar hyn o bryd i grwpiau sy'n agored i niwed, megis y rhai sydd wedi'u nodi yn y rhybudd o gynnig yma, yn ogystal â chynlluniau arfaethedig mewn perthynas â sut mae modd i'r Cyngor fuddsoddi ymhellach a'u cefnogi nhw.

Yn dilyn trafodaeth mewn perthynas â'r cynnig gwreiddiol ac yn unol â Rheolau Gweithdrefn 12.7 y Cyngor, cynigodd cynigydd y rhybudd o gynnig newid i'r Cynnig i gynnwys y geiriad "Rydym yn galw ar y Cyngor i ddarparu crynodeb ysgrifenedig ar frys i'r Aelodau .. "

Dyma'r Cynnig wedi'i ddiwygio:

Mae Grŵp Plaid Cymru yn galw ar y Cyngor i weithredu er mwyn cefnogi'r unigolion sydd fwyaf agored i niwed yn ein cymunedau sydd wedi dioddef o ganlyniad i'r Coronafeirws ac sy'n parhau i ddioddef.

Mae nifer o bobl hŷn yn dioddef o "unigrwydd y cyfnod clo" ac mae'r rheiny sy'n wynebu anawsterau iechyd meddwl, rhieni sengl, yn ogystal â chynhalwyr plant a phobl ifainc ag anghenion dysgu ychwanegol ac anableddau bellach mewn sefyllfa sy'n golygu nad oes modd iddyn nhw fanteisio ar eu rhwydweithiau cymorth neu wasanaethau. Mae'n hollbwysig sylweddoli effaith y Coronafeirws ar y grwpiau sy'n agored i niwed.

Rydyn ni'n galw ar y Cyngor i ddarparu crynodeb ysgrifenedig i Aelodau ar unwaith. Dylai'r adroddiad gynnwys y cymorth sy'n cael ei ddarparu ar hyn o bryd i grwpiau sy'n agored i niwed, megis y rhai sydd wedi'u nodi yn y rhybudd o gynnig yma, yn ogystal â chynlluniau arfaethedig mewn perthynas â sut mae modd i'r Cyngor fuddsoddi ymhellach a'u cefnogi nhw.

Yn dilyn trafodaeth hir, **PENDERFYNWYD** mabwysiadu'r Rhybudd o Gynnig yma gyda'r newid dan sylw.

**24 Materion Brys**

**Daeth y cyfarfod i ben am 7.25pm**

**Y Cynghorydd S. Powderhill**
**Cadeirydd**